It has been decided to organise a Festival early next Season, at which four of the best new One-Act Plays, written in English or Welsh and not previously published or produced, shall be staged by good representative County Companies. Twenty-one entries were received and were in process of adjudication by Mrs. Mary Lewis. Mr. Gwynne D. Evans (Carmarthenshire) was appointed as Adjudicator, and it is confidently expected that a high standard of productions will be achieved at the Festival.

B.B.C. CHILDREN'S HOUR APPEAL FUND

Mr. E. C. Bilson

Gifts to the value of £806 were distributed to a total of over 900 Children who are crippled or invalid or domestically unfortunate.

We express once again our gratitude to the Secretaries of Rural Community Councils, Citizens' Advice Bureaux, the Medical and Education Officers, the staff members and the private individuals who give personal attention to the distribution of this Fund.

THANKS

To the Ministries, Development Commission, Local Authorities and Trusts who make possible by their grants-in-aid the maintenance of our work. We trust that the foregoing record of our activities will earn their continued support.

To the individuals, Industrial Concerns, Business Houses and Trade Unions who have supported us with donations and subscriptions.

To the members of the Clubs for their generous donation of £1,311.

STAFF

Finally, the Council is proud to have in its service a team so effective and loyal and is glad to record its appreciation of their services, without which the work here recorded could not have been accomplished.

ADRODDIAD BLYNYDDOL

1959-60



Wele gofnodion byr o brif waith y Cyngor yn ystod y flwyddyn, yn cynnwys bras drafodaeth yn unig o waith y Cyngorau Cymdeithas Wledig, y Swyddfa Diwydiannau Gwledig, a Chyngorau Gwasanaeth Cymdeithasol y Trefi.

GWEITHGAREDDAU GWLEDIG

Mr. Herbert Davies

Ein Hadran Wledig sy'n gyfrifol am ddarparu, hyd y gellir, yn Siroedd Morgannwg a Fflint, y gwasanaethau a weinyddir ym mhob sir arall yng Nghymru drwy'r Cyngorau Cymdeithas Wledig.

Parhaodd y Cyngor i ddarparu yn Sir Fflint waith Swyddfa i Undeb Cyngorau Plwyf y Sir, ac yr ydym yn dra diolchgar i Mr. T. Wesley Hughes, Swyddog Lles y Sir, am ei waith ardderchog ynglŷn â Lles Hen Bobl. Pery ein Swyddog Gwlad i ddelio'n uniongyrchol â phob mater sy'n gysylltiedig â Neuaddau Pentrefi a Meysydd Chwarae yn y Sir.

Dyry'r Adran Wledig, ymhlith amrywiol weddau ei gwaith, gyfran helaeth o'i hamser i Sir Forgannwg; ac nid rhyfedd hynny, o gofio mai Caerfyrddin yw ein hunig sir sy'n fwy o faint na hi, a bod yn agos hanner poblogaeth Cymru yn byw ym Morgannwg.

Yng nghanol mawredd ysgithrog mynyddoedd Gwynedd, a dyffrynnoedd dymunol a ffrwythlon Gogledd Cymru, hawdd dychmygu mai gwlad ddiwydiannol eang yw Morgannwg, a phan âi gwŷr y Gorllewin yno o'u pentrefi, dywedid ar un adeg eu bod wedi mynd i'r "gweithiau." Rhaid nodi felly fod ym Morgannwg saith Dosbarth Gwledig, heblaw tair Bwrdeisdref Sirol, pum Bwrdeisdref Ddinesig, a deuddeg Dosbarth Dinesig. Y mae dros 200,000 yn byw yn y 115 plwy sydd yn ardaloedd gwledig y Sir, a'r pentref yn parhau'n ganolfan. Yn ystod y flwyddyn bu cryn adfywiad diddordeb mewn darparu Neuaddau Pentrefi ar eu cyfer.

Neuaddau Pentrefi

Ar hyn o bryd yr ydym yn ystyried deg cynllun ym Morgannwg, thau wedi datblygu mwy na'i gilydd.

Craig-Cefn-Parc.—Yno'n fuan, wedi hie ddisgwyl, bydd Neuadd a gyst £8,000. Ceir grant gan y Weinyddiaeth Addysg, a chyfraniad sylweddol dan Drefniadau Lles Cymdeithasol y Diwydiant Glo, a rhodd hael gan y Cyngor Plwy, a grant gan y Cyngor Dosbarth Gwledig.

Efail Isaf.—Bellach casglodd y Pwyllgor Lleol Gronfa ddigonol i allu ceisio cymorth-dâl gan y Weinyddiaeth Addysg, ac y mae cynllun y Neuadd yn cael ei ddarparu.

Pen-Marc.—Darperir cynllun gan Bwyllgor eiddgar i droi hen ysgol y Pentref yn Neuadd, ac y mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n brysus.

Rbws.—Hydera'r Pwyllgor Lleol gasglu £1,000 erbyn diwedd y flwyddyn, ac yna drefnu cynlluniau Neuadd ar gost o tua £6,000.

Ewenni.—Teimla'r Pwyllgor ei fod wedi llwyddo, ar ôl bod am gyfnod yn casglu cronfa, i argyhoeddi'r ardal fod angen Neuadd, ac y mae'n mynd rhagddo â'r gwaith.

Llanfihangel-y-Pwll.—Pentre hyfryd heb fan-cyfarfod cymdeithasol, a Phwyllgor heb allu penderfynu beth i'w wneud, am fod yr antur yn enfawr i gymdeithas wledig mor fach, er iddynt gael cynnig llecyn i godi Neuadd.

Sain Ffagan.—Collodd y pentrefwyr eu man cyfarfod, Neuadd y Plwy, drwy dân,—neuadd a roesid i'r Plwy gan Ystad Plymouth, a'i chynnal am 75 mlynedd. Y mae'r Ystad eto'n barod i gyfrannu'n hael tuag at gael Neuadd Bentre. Cynhaliwyd cyfarfodydd, a dewis Pwyllgor i drefnu cynllun.

Oger-Ger-y-Môr.—Un cyfarfod a gynhaliwyd yma—i drafod sut i gael Neuadd.

Bryn-Coch.—Byddai Neuadd yma yn rhoi gwasanaeth i ryw 3,000 o bobl sy'n preswyllo yn yr ardal, ac eisoes cafwyd achos i gredu y gellir gwneuthur rhywbeth i gyflenwi eu hangen.

Ynys Maerdy.—Dyma bentre bach ag y mae ystad dai Cyngor Dosbarth Gwledig wedi ei ehangu. Y mae'r draul o godi adeilad parhaol yn rhy drom i'r preswylwyr eto, ond eisoes dechreuasant gyfrannu tuag at gael Neuadd. Gyda bendith a chymorth y Cyngor Plwy daeth mintai weithgar ynghyd i godi adeilad dros dro i gwrrd ag angen yr ychydig flynnyddoedd nesaf, nes medru cael Neuadd parhaol.

Y mae gan ein Swyddog Gwlad ei ran yn yr holl gynlluniau uchod, a rhoddes hefyd gymorth i Bwyllgorau y Neuaddau Pentrefi sydd eisoes ym Morgannwg a Sir Fflint.

Cynghorau Plwy

Maes arall yng ngweithgarwch ein Hadran Wledig yw'r gwaith gweinyddu mawr sy'n gysylltiedig ag Undeb Cynghorau Plwy Morgannwg, sy'n rhoi gwasanaeth pwysig a chynyddol i fywyd ardaloedd gwledig y Sir. Y mae dros 70 Cyngor Plwyf yn aelodau llawn yn yr Undeb; a gall y rhai sy'n weddill, er eu bod, gan mwyaf, yn rhy fach i gael Cyngor Plwyf, alw am wasanaeth ein Swyddog Gwlad. Cyfyd amrywiaeth cang a diddorol o broblemau yn y plwyfi, ac, os gellir, rhoddir iddynt gyfarwyddyd a chymorth. Cedwir mewn cyswllt agos ag Undeb Cenedlaethol y Cynghorau Plwyf, a gwylia Pwyllgor Gweinyddol yr Undeb yn ofalus dros hawliau a breintiau'r Cynghorau a'r Cyfarfodydd Plwy.

Y prif bwnc sy'n cael sylw'r Undeb a'i Bwyllgorau Adrannol eto eleni yw effaith y Ddeddf Lywodraeth Leol, 1968 ar y Cynghorau Plwy. Y mae cynnig Bwrdeisdref Sirol Caer-dydd, gerbron Comisiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru, i changu'r ffiniau yn bwgwth 15 plwyf ym mro Cyngor Dosbarth Gwledig Caer-dydd; a'r cynigion a wneir ynglŷn ag ardaloedd gwledig Llantrisant a Llanilltud Faerdre, Castell-nedd a Phont-ar-dawe, yn effeithio ar blwyfi eraill yn y Sir. Cytunodd y Comisiwn Llywodraeth Leol i ystyried yr Undeb Sirol fel awdurdod lleol unigol i'r amcan o dderbyn rhybuddion o ymgonion a allai effeithio ar y plwyfi, a dadlau ar eu rhan. A chyflwynodd yr Undeb i'r Comisiwn farn pob Cyngor Plwyf yr oedd y cynigion yn effeithio arno.

Cyn gwledig ohonom ganlyniad Arolwg y Comisiwn ar Ffiniau'r Siroedd, ac ar Ffiniau'r Bwrdeisdrefi Sirol, y mae'r Undeb eisoes, drwy ei Bwyllgorau Adrannol, yn paratol ar gyfer ail ran yr Arolwg, sef gwaith y Cyngor Sir ar yr ardaloedd yn y Sir. Ac anogir y plwyfi, na ellir yn hwylys ac effeithiol eu llywodraethu'n lleol, i ystyried y ffordd orau i'w huno'n unedau mwy.

Bu'r Undeb yn ystyried hefyd gyfleusterau cludo yn y wlad, a'r cynnydd yng nghostau teithio ar y bystiau, a sut i weinyddu'r plwyfi'n fwy effeithiol. Ein Swyddog Gwlad yw Ysgrifennydd Undeb Cynghorau Plwy Morgannwg, ac felly y mae mewn cysylltiad agos â phob cynllun yn yr ardaloedd gwledig i sicrhau iddynt Neuaddau Pentrefi a Meysydd Chwarae.

Meysydd Chwarae

Cymer ein Hadran Wledig bob cyfrifoldeb am waith gweinyddol Cymdeithas Meysydd Chwarae Morgannwg, yn cynnwys rhoi cyngor a chymorth gyda phob apel am help ariannol i gael Meysydd Chwarae, a Chaeau Chwarae i'r Plant, a chyfleusterau eraill ynglŷn ag adloniant. Caiff y Gymdeithas gefnogaeth pob awdurdod lleol yn y Sir, ac yn ystod y flwyddyn dug lawer iawn o Glybiau Chwaraeon yn aelodau.

Cafodd deg cynllun mawr ym Morgannwg gymorth ariannol gan Gymdeithas Genedlaethol Meysydd Chwarae, a'r cyfanswm yn £2,355. Cynlluniau Llywodraeth Leol oedd wyth ohonynt, yn y Barri, Porth Talbot, Caerffili, Pont-ar-dawe, Castell-nedd, Coed-ffranc, Pendeulwyn, a Gŵyr; a dau glwb preifat—Clybiau Chwaraeon yn Aber-dar a Llan-daf. Cyflwynwyd grantsiau mân, lawer, ar gyfer offer, gan Gymdeithas Genedlaethol Meysydd Chwarae, o Gronfa'r Lord's Taverners; a chefnogodd y Gymdeithas apel R.F.C. Cydgenedlaethol a Mabolgampol Caer-dydd, a sicrhau grant gan y Weinyddiaeth Addysg. Cynigiwyd grant hefyd o £1,300 i ddarparu Maes Chwarae yn ardal Bute, Caer-dydd.

Lle y mae amryw resymau dros wrthod cymorth ariannol, yr ydym yn dra diolchgar i Gymdeithas Genedlaethol Meysydd Chwarae am eu cyfarwyddyd technegol gwerthfawr, ac am eu help parod i bob cynllun yn y Sir.

Y mae cynlluniau pellach yn cael eu hystyried yn Aberpennar, Porth-cawl, Peterston-super-Montem, Resolfen, Tonna, ac changu Maes Chwarae Sior V Bwrdeisdref Rhondda ym Mlaenclydach.

Lles Hen Bobl

Ym Morgannwg ein Hadran Wledig fu'n gofalu am les hen bobl y llynedd. Erbyn hyn gwag bron yw'r cronfeydd y gellid dibynnu arnynt i roddi cymorth ariannol at gynlluniau Adeiladu Clybiau. Rhaid i ninnau felly ymdrechu hyfforddi gweithwyr gwirfoddol i wasanaethu'r oedtrannus, ac yn arbennig symblu ardaloedd i sefydlu Pwyllgorau Ymweled i drefnu'r cyfryw wasanaeth, oblegid bod cynifer o'r hen bobl nid yn unig yn byw ar eu pennau eu hunain, ond hefyd yn teimlo'r unigrwydd yn faich. Bu ein Swyddog yn annerch cynulliadau ohonynt, ac yn bresennol yn rhai o Gyfarfodydd Rhanbarthol Pensynwyr Henoed. Yn awr y mae'n cynorthwyo i baratoi ceisiadau am gymorth ariannol o dan Gynllun Datblygu Clybiau Hen Bobl (Sior VI). Grantiau 1960 fydd y rhai olaf o dan y Cynllun hwn, ac y mae nifer o Bwyllgorau Lles Hen Bobl ym Morgannwg yn gobcithio cael cyfran ohonynt. Y mae Cynlluniau ar waith i ddarparu adeiladau newydd neu i changu a gwella adeiladau i Glybiau yn Nhref-Hopcyn, Seven Sisters, Brynaman, Llanbradach, Porth-cawl, Cwm Ogwr, Melin-cwrt, Sgiwen, a Chastell-nedd, a'r Pwyllgorau lleol yn cael help ein Swyddog ni.

CLYBIAU MERCHED

Mrs. M. Liedtke

Er nad oes nemor newid ym mhatrwm bywyd y Clybiau, eto y mae cryn amrywiaeth yn eu rhaglenni, a chyfrannant yn helaeth at fywyd yr ardaloedd.

Cythaeddodd amryw o'n Clybiau hynaf eu 25 a'u 21 oed, a dethlir yr amgylchiad ynddynt. Un o'r rhai mwyaf nodedig yw Nant-y-moel, a gyflwynodd ar yr achlysur byrsau a wledau i'r naw aelod a sefydlodd y Clwb.

Dibynna llwyddiant ein gwaith, i fesur helaeth, ar fod y Clybiau ar delerau da â'i gilydd, ac â'u hardaloedd. Ac arwydd sicr o'r teimladau da sy'n ffynnu yw'r deyrnged ryfeddol a gaiff y Clybiau ar eu pen-blwydd.

Y mae 110 Clwb yn gysylltiedig â'r Cyngor Gwasanaeth Cymdeithasol, a'r mwyafrif ohonynt yn weithgar iawn, eithr, fel ym mhob mudiad arall, y mae ychydig yn laesu dwylo, naill ai o ddiffyg arweinyddiaeth neu o ddiffyg sêl. Y mae pump athrawes yn rhoi hyfforddiant amser llawn i'r Clybiau mewn Gwaith Llaw, a dwy mewn Cadw Tŷ, heblaw chwech yn gweithio rhan amser. Gofala hyfforddwr trwyddedig am ddosbarthiadau Cadw'n Ffit. Arolygir y Clybiau gan Dair Trefnydd sy'n ymweled â hwynt yn aml, ac yn eu helpu i drefnu cyfarfodydd, a chyda'u holl weithgareddau eraill.

Yn ystod y flwyddyn cynhaliodd y Clybiau un cyfarfod ar bymtheg, nifer ohonynt yn uno â'i gilydd, a rhyw 150-200 yn bresennol bob tro. Bu pedair ar ddeg o Gynadleddau Rhanbarthol, a nifer o ralfau, sy'n boblogaidd iawn, ac o 100 i 250 yn eu mynychu.

Ar y Pwyllgor Gweinyddol y mae cynrychiolwyr o'r Clybiau, a Mrs. J. Jenkins, U.N., yn y Gadair. Cyfarfu'r Pwyllgor chwe gwaith i drafod problemau'r Clybiau, i drefnu Cynadleddau, ac i lunio penderfyniadau'r Clybiau i'w hystyried yn y Gynhadledd Flynyddol. Y prif benderfyniad, a ddanfonir i'w drafod yng Nghynhadledd Flynyddol Undeb Cenedlaethol Clybiau Merched—Undeb sydd wedi derbyn Clybiau Cymru'n aelodau—yw, "Gofdia'r Gynhadledd hon yn fawr oblegid bod y Strontwm 90 sy'n disgyn ym Mhrydain yn cynyddu. Anogwn y Llywodraeth i wneuthur ymchwilriad ar unwaith, ac yn gyntaf dim atal gwerthu llefrith o'r ardaloedd peryglus."

Y Pwyllgor Gweinyddol sy'n cynrychioli Clybiau Cymru yn y Gynhadledd Genedlaethol flynyddol a gynhelir ym Mhrifysgolion Prydain. Eleni bydd yn Neuadd Keele, Swydd Stafford, ac yn trafod penderfyniadau eraill, a ddaw o Glybiau Lloegr.

Cynhaliodd yr Undeb Cymreig eisoes bedair Cynhadledd Breswyl Flynyddol, a thytodd yn gyson. Y pwnc eleni oedd "Hamdden a Phleser" a'r prif siaradwyr oedd y Dr. Wm. King, a'r Henadur Sir Llewelyn Heycock, Cadeirydd Pwyllgor Addysg Cyngor Sir Forgannwg, a Mrs. Norah Phillips, Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb Cenedlaethol Clybiau Merched. Yr oedd dros 200 yn bresennol ym mhob sesiwn.

Gweithgareddau'r Clybiau

Trefnodd aelodau Clybiau Canolbarth Morgannwg Arddangosfa ym Mhen-y-bont, a denu o 500 i 600 o aelodau ac ymwelwyr iddi.

Ym Mhen-y-bont ym Mis Rhagfyr ail gychwynnwyd y Gwasanaeth Carolau, a fuasai gynt mor boblogaidd, a llanwyd pob sedd yn y capel gan aelodau'r Clybiau o bell ac agos. Y gweinidog, y Parchedig Price oedd yn llywyddu, a Miss A. J. Hills, cerddor nodedig, yn arwain. Canodd corau garolau hen a newydd, rhoddes aelodau ddarlenniadau, ac adroddodd Grwp Llafar, oedd wedi ei hyfforddi'n gampus, "Y Greadigaeth."

Cafwyd arddangosiadau gan gwmnïau masnach, megis y Cwmni Nwy, y Cwmni Trydan, etc., ac anerchiadau mewn Clybiau gan Swyddogion o Bencadlys yr Heddlu, a'r Gwasanaethau Tân, a'r Bwrdd Cymorth Cenedlaethol.

Rhoddyd gwybodaeth werthfawr yn un o'r Cynadleddau am y "Banc Llygaid" sydd yng Nghaer-dydd, yr unig un yng Nghymru.

Cynhaliwyd Ysgolion Undydd ymarferol yn Fferm y Sir, Tre-groes, i ddysgu gwneuthur gwinoedd, a bwydydd y Pasg, a bara. Bu amryw o aelodau'r Clybiau mewn Rali ar "Ddydd Agored" yn y Fferm, ac enill nifer o wobrau am y pethau a arddangosent, ac aeth y wobr gyntaf droeon i Glwb Caerffili. Trefnodd ein Staff Gwaith Tŷ yn Rali Fferm Pen-coed Gegin Gymreig, a dangos sut i wneud amryw Fwydydd Cymreig.

Pery Ralïau ardal Pont-y-pridd yn boblogaidd, a denant aelodau o Glybiau eraill—rhwng 100 a 250. Ymgasglant i fwynhau "noson lawen," a daw llawer o dalent i'r amlwg. Rhaid i ni gyfeirio'n arbennig at yr aelod o Ynys-y-bwl a ymddangosodd mewn ymddiddan ar y Teledydd.

Ym Mis Gorffennaf diwethaf trefnodd Clybiau Margam a Sgiwen Rali "Cadw'n Ffir" a Dawnsio yng Ngholeg Addysg Bellach Margam, ac aelodau o Sgiwen, Tai-bach, Margam, a'r Sandfields yn arddangos eu dawn a'u medr. Terfynodd y noson ddedwydd honno mewn arddangosiad gan ŵr cyfarwydd o Lundain a'i staff o'r ffordd i ofalu am y gwallt, a'r dulliau gorau i'w osod.

Teithiau

Trefnwyd teithiau gwyliau i ddau barti o dros 130 aelod i Draethau'r De, un i Dorquay, a'r llall i Hastings.

Trefnodd amryw Glybiau deithiau diwrnod, nad oes le i'w cofnodi yma. Ond tybiwn y dylem gyfeirio at yr amryw bartïon a ymwelodd â Llundain i weled "My Fair Lady," ac yn arbennig y Clwb Ffodus hwanw a ddigwyddodd ddewis diwrnod a roddes gyfle iddynt weld yn annisgwyl y tân gwyllt a drefnwyd er anrhydeddu'r Cadfridog de Gaulle.

Eleni anturiwn deithio lawer yn rhellach. A yn agos i 120 o aelodau'r Clybiau drwy'r Almaen, a'r Yswistir, a'r Eidal, gan alw yn Oberamergaw i weled Drama enwog yr Ing.

Cyhoedduswydd

Bu llafur aelodau yn eu hardaloedd, a cholofnau'r Wasg yn cyfeirio at y gwaith, yn help mawr i dynnu sylw'r wlad.

Cydweithredu â Mudiadau Eraill

Cymerwn ran amlwg yng ngwaith cymdeithasau eraill; a chynrychiolir Clybiau ar y Sefydliad Safonau Prydeinig, y Cyngor Defnyddio Glo, Pwyllgorau Lles Hen Bobl, Gwasanaethau Gwirfoddol y Merched, Is-bwyllgorau Ymgynghorol Lleol Merched i sicrhau Gwaith, a llawer mudiad arall. Dyr y aelodau wasanaeth hefyd ar Gynghorau Plwy, ac mewn Llywodraeth Leol, ac ar faint Ustusiaid Heddwch.

CLYBIAU DYNION

Mr. Herbert Davies

Bu Clybiau'r Dynion a drefnwyd gan y Cyngor yn gaffaeliad mawr yng nghyfnod y Dirwasgiad. Rhoesant gyfe i wŷr heb waith gyfiawni gwasanaeth buddiol—trwsio esgidiau, gwaith coed, a rhoi gorchudd ar gelfi. Ond pan fo pawb mewn gwaith, anodd yw cael y dynion at ei gilydd yn eu horisu hamdden i ddilyn y gorchwylion hyn. Eto crys nifer o'r Clybiau, a'r prif weithgarwch bellach yw gwaith coed, a'r Cyngor yn parhau o hyd i ddarparu hyfforddiant iddynt.

Gweithreda'r Clybiau fel Canolfannau C.A.B. bychain, ac yn fynych, drwy eu penderfyniadau, y maent yn abl i beri cyfnewidiadau sy'n fanteisiol i'w haelodau a'u cymdogion.

Myfyrwyr

Ymwelodd Myfyrwyr Tramor drachefn â'n Clybiau, a chasglu gwybodaeth werthfawr am drefnu a gwcinyddu, a fydd yn fuddiol iddynt pan ddechwelant adref.

Ceisiadau am Gymorth

Y mae ein haelodau yn dal i arwain yn y gwaith o gefnogi achosion rheidus, yn eu cymdogaeth eu hunain ac o'r tu allan, ac ni wrthodir unrhyw gais am help.

Canmolwn ymdrech glodwiw Clwb Pant-mawr yn trefnu Arddangosfa yng Nghaer-dydd ar ran Cronfa Achub y Plant, ac yn casglu £93. Cyfrannodd y Clybiau hefyd £94 at Gronfa Ffoaduriaid y Byd, a mawr yw ein diolch iddynt am eu rhodd hael—ychydig yn brin o £1,400, i'r Cyngor.

CANOLFANNAU AC UNDEBAU CYMDEITHASOL

Mrs. M. Liedtke

Gwaith araf, o raid, yw meithrin ysbryd cymdeithasol, yn enwedig ar ystadau tai newydd, am nad yw gwreiddiau'r trigolion yn yr ardal, ac am nad oes ganddynt hwy a'u cymdogion ddim ond ychydig iawn yn gyffredin iddynt, heblaw eu bod wedi sicrhau aelwydydd iddynt eu hunain. Wedi rhoi trefn ar eu cartrefi, rhaid iddynt wrth ryw weithgareddau cymdeithasol, fel y del iddynt yr

ymdeimlad eu bod yn rhan o'r gymdeithas newydd. Gyda'r amcan hwnnw, pery ein Swyddog i annog ffurfio Undebau Cymdeithasol, a chynorthwyo'r sawl a sefydlwyd eisoes, i gynllunio adeiladau i fod yn ganolfannau eu gweithgareddau. Ni ellir gwneuthur y gwaith hwn heb wario llawer, a dibynnu ar gyfraniadau gwirfoddol i sicrhau'r rhan fwyaf o'r arian, ac felly rhaid aros yn hir cyn cyrraedd y nód, a chael arweinwyr sy'n meddu ar y ddawn i gadw fflam brwdfrydedd ynghynn.

Yn ystod y flwyddyn ymwelwyd â'r Undebau Cymdeithasol yn ardaloedd Caer-dydd, Casnewydd, ac Abertawe, a'r Siroedd gweinyddol, Morgannwg a Mynwy. Cynorthwywyd ynglŷn â'r cynlluniau i sicrhau Canolfannau Cymdeithasol yng Ngorllewin Pontnewydd, Mynwy; Malpas, Casnewydd; Y Ward Orllewinol, Pen-y-bont; Ffynnon Daf; Margam a'r Goetre, Porth Talbot. Adfywiodd diddordeb amryw Undebau, y diffygiasai eu sêl gynnar o weled yr âi amser hir heibio cyn bod ganddynt Gronfa ddigonol i fynd ymlaen â'r gwaith o sicrhau Canolfan. Gwelodd ein Swyddog fod angen eu calonogi'n feunyddiol yn eu hymdrechion. Nodwedd werthfawr yn yr aros hir yw tyfiant cyson yr ysbryd cymdeithasol, a chadarnhau'r ymdeimlad o angen am Ganolfan, fel y gallont oll ymgynnull i gydgyfranogi yn eu hamrywiol weithgareddau.

Bu Cynhadledd lewyrchus llynedd yng Nghaer-dydd o gynrychiolwyr Undebau Cymdeithasol ardaloedd y Brif-ddinas a Chasnewydd; a Chynhadledd wedyn ym Margam ym Mis Hydref. Yr oedd tua deugain yn bresennol, yn cynnwys cynrychiolwyr Canolfannau ym Mwrdeisdref Sirol Abertawe. Trefwyd dwy sesiwn a chafwyd anerchiadau a thrafodaeth ar ddau bwnc— "Ennyn Diddordeb yr Aelodau a'i Gynnal," a "Darpariadau Cymdeithasol Awdurdod Morgannwg." Y siaradwyr oedd Mr. R. Mulelly, Dirprwy Ysgrifennydd Cymdeithas Genedlaethol yr Undebau Cymdeithasol, a Mr. B. J. Griffiths, Trefnydd Addysg Bellach Morgannwg.

Trwy Ysgrifenyddion Cynghorau Cymdeithas Wledig yng Nghymru ceidw'r Cyngor mewn cyswll â phob datblygiad, ac y mae ein Swyddog Canolfannau Cymdeithasol yn awr yn trefnu Cynhadledd ar gyfer gweithwyr y Deheubarth yn y maes hwn, i sicrhau cyfle i'w calonogi, ac i drafod eu problemau a'u hanawsterau.

Dilyni'r un patrwm yn y Gogledd, ac ystyriwn y byddai Cynhadledd Genedlaethol Gymreig yn esgor ar ganlyniadau buddiol, ac yn fanteisiol i'r rhai y mae problemau arbennig Cymru yn eu blino.

Bu cyswll agos â Chymdeithas Genedlaethol yr Undebau Cymdeithasol, a bu cynrychiolwyr o Gymru mewn Cynadleddau Rhanbarthol. Trefnodd amryw Undebau weithgareddau arbennig yn ystod Wythnos Gymdeithasol 1960, Mai 7-15, a'r cwbl yn pwysleisio'r angen am wasanaethau cymdeithasol, a'u nód ar ennull gweithwyr gwirfoddol.

Dyledwyr ydym i'r Undeb Cenedlaethol am y llenyddiaeth a ddarpara, ac am barodrwydd ei Swyddogion i roi cymorth a chynngor i ddatblygu'r gwaith yng Nghymru.

LLES HEN BOBL

Mr. Llewelyn Evans

Bellach y mae yng Nghymru un-ar-ddeg Pwyllgor Sirol Cyd-drefnol Lles Hen Bobl, a phedwar Pwyllgor Bwrdeisdref Sirol. Ym Merthyr, yn ystod y flwyddyn, dewiswyd Pwyllgor yn cynrychioli diddordebau Cyfreithiol a Gwirfoddol y Fwrdeisdref, a threfnasant yn helaeth ar gyfer hen bobl y cylch. Cynydda rhif y Pwyllgorau Lleol hyn yn gyson, ac changa'u gweithgarwch, ac yn arbennig eu Gwasanaethau Ymwled a Thrin Traed a Dwyllo.

Sefthfed Wythnos Hen Bobl 1959

Yn 1953 sefydlodd y Cyngor "Wythnos yr Hen Bobl yng Nghymru," a chreodd yr antur y fath diddordeb fel y neilltuwyd wythnos gyntaf Mis Hydref ar ei chyfer bob blwyddyn, a cherdodd ymlaen o lwyddiant i lwyddiant. Daeth yr "Wythnos" yn un o wyliau cydnabyddedig y Dywysogaeth.

Cydnabydd y Cyngor yn galonnog gydweithrediad a chymorth Bwrdd Iechyd Cymru, Bwrdd Cymorth Cenedlaethol, a Gweinyddiaethau eraill, y B.B.C., y Wasg, a'r Eglwysi, a nifer cynyddol o Awdurdodau Lleol a Chymdeithasau Gwirfoddol.

Sefydliad Coffa'r Brenin Sior VI

(a) Yn ein Hadroddiad am 1959 dywedasom fod cronfa'r Sefydliad ar gyfer "Cynlluniau Datblygu Clybiau" wedi ei gwario'n llwyr. Er hynny y mae'n dda gennym ddeall fod "bloc grant" ychwanegol i'w gael ar gyfer y gwaith hwn; ac, am hynny, y mae nifer sylweddol o Bwyllgorau Lleol yn paratōi cynlluniau i ddarparu cartrefi i Glybiau'r Oedrannus, ac yr ydym yn hyderus y cânt beth cymorth ariannol o'r gronfa hon, pan ddél yn byrd iddynt gyflwyno'u ceisiadau a'u cynlluniau.

(b) O dan Gynllun Gwasanaeth Cymdeithasol y Sefydliad cynhaliwyd Cyrsiau llwyddiannus i Hyfforddi Arweinyddion i ofalu am Les Hen Bobl—mewn canolfannau yn Ynys Môn, Arfon, a Siroedd Caerfyrddin, Penfro, Brycheiniog, Maesyfed, a Mynwy. Yn ddiweddar cafwyd cyrsiau llwyddiannus hefyd yn Siroedd Dinbych a Meirion.

SWYDDFEYDD CYNGHORI DINASYDDION A LLES CYMDEITHASOL

Mrs. R. A. Williams

Gwasanaethau Hysbysu a Chynghori

Dengys profiad a pharhad yr adran hon o'n Gwasanaethau Lles mor bwysig ydyw ym mywyd cymdeithas. Chwyddodd nifer yr ymholiadau yn 1959-1960, a nifer y problemau y deliodd ein Swyddog â hwy, drwy gysylltiadau personol ac ymweliadau â theuluoedd, a thrwy ohebu, ac ar y ffôn.

Nid oes dim unfurfiacth yn y gwaith hwn. Y mae'r gwasanaeth, o raid, yn ystwyth ac amrywiol. Anaml y mae dau berson am gael datrys yr un broblem. Y problemau amlaf yw Hysbysrwydd Cyffredinol; Personol a Theuluoel; Bywyd Priodasol; Sicrhau Tai; Cyllid yr Aelwyd; Pensiynau ac Yswiriant Cenedlaethol; Prynu ar Goel; Cymorth a Chyngor Cyfreithiol; Plant Cadw; Clybiau Ieuencid.

Gwasanaeth i'r Unigol

Deliodd ein Swyddog â llawer rhagor o achosion ym Mhrydain ac o'r tu allan, nifer ohonynt oherwydd bod yr ymdeimlad o gyfrifoldeb i'r teulu wedi dirywio. Nid yw'r teulu modern yn undod megis gynt, ac felly y mae ei ddylanwad yn llai ar ei aelodau ei hun. Mewn llawer achos rhaid oedd cael sgwrs â'r teulu, ymweled ag aelwydydd, a llunio adroddiadau ac argymhellion i Wasanaethau Cymdeithasol Cydgenedlaethol Prydain, Cymdeithas Lles Teuluol, Gwasanaethau Lles Tramor, Byddin Dir y Merched, Cyngor Prydain i Gynorthwyo Ffoaduriaid (o wlad Pwyl, Hwngaria, a'r Aiff), Bwrdd Cymorth Cenedlaethol, Cyngorau Cymdeithas Wledig, Adrannau Llywodraeth Leol, Awdurdodau Lleol.

Cydweithredu â Mudiadau Eraill

Oherwydd dylanwad amrywiol Wasanaethau Cymdeithasol y Wladwriaeth ar fywyd teuluol heddiw, parodd y galw am ddehongli sut i'w gweinyddu newid cyson yn nodwedd ein gwaith. Am hynny datganwn drachefn ein gwerthfawrogiad o'r berthynas effeithiol rhwng ein Gwasanaethau Lles ni a Gwasanaethau Cymdeithasol Adrannau'r Llywodraeth yng Nghymru.

Cymorth A Chyngor Cyfreithiol

Da gennym allu cofnodi eto fod Swyddfeydd Cyngoroi Dinasyddion yng Nghymru, a Chyngorau'r Gymdeithas Wledig yng Nghymru, a Chymdeithas y Gyfraith yn cydweithredu â Gwasanaethau Lles Cymdeithasol y Cyngor.

Daeth Rheolau Cyfarwyddyd Cyfreithiol i rym ym Mis Mawrth, 1959. Darparant Gynllun Cyfarwyddyd Cyfreithiol dan Adran 7 o Ddeddf Cymorth a Chyfarwyddyd Cyfreithiol, 1949. Yr un dydd hefyd cychwynnodd Cynllun Cyfarwyddyd Gwirfoddol Cymdeithas y Gyfraith weithredu. Daeth Rheolau (Diwygiedig) Cyfarwyddyd Cyfreithiol i rym Ebrill 27, 1960.

SWYDDFEYDD CYNGHORI DINASYDDION CYMRU

Y mae ein Swyddog ar Bwyllgor Cenedlaethol Swyddfeydd Cyngoroi Dinasyddion, ac yn cadw mewn cyswllt agos â holl wasanaethau Cymru benbaladr, ac yn barod i roi cyfarwyddyd; ac yn Swyddog cyswllt rhwng Gwasanaethau Canolog y Cyngor Cenedlaethol a Gwasanaethau Cymru.

Yn ôl ystadegau 14 Swyddfa yng Nghymru yr oedd nifer ymholiadau'r fwyddyn yn agos i 26,750 ar wahân i'r rhai nas cofnodwyd gan weddill y Swyddfeydd.

Gwasanaethau Ymgynghorol yn yr Ardaloedd Gwledig

Hyrwyddir y gwaith yn yr ardaloedd gwledig gan Swyddogion un-ar-ddeg o Gynghorau Cymdeithas Wledig yng Nghymru, ar y maes ac yn eu Pencadlysioedd Sirol. Dewiswyd Ynys Môn a Sir Ddinbych i'w cynnwys yng Nghynllun Grantiau Ymddiriedolaeth Carnegie yn y Deyrnas Gyfunol.

Bu'r Cyngor Cymreig ers llawer dydd yn effro i'r angen am ehangu'r gwasanaethau ymgynghorol i'r ardaloedd gwledig diarffordd, a gwerthfawrognw'n lafur yr un-ar-ddeg Swyddog Sir.

Lles Cyffredinol y Plant

Ein Swyddog sy'n gweinyddu'r gwasanaeth hwn, ac yn sicrhau teuluoedd i ofalu am blant o dan nawdd Cronfa Achub y Plant. Ymwelir â'r aelwydydd, a gwneir adroddiadau ac argymhellion yn rheolaidd.

Gwasanaethau Ieuenctid

Cynrychiolir 28 Mudiad Gwirfoddol Ieuenctid yng Nghynhadledd Sefydlog Cymru yn cydweithredu â Chyngor Gwasanaeth Cymdeithasol Cymru, dan lywyddiaeth yr Anrhydeddus J. H. Bruce. Bu'r Bumed Gynhadledd Breswyl yn y Barri Fis Hydref 16-18, 1959. Yr oedd yno bedwar ugain yn cynrychioli 24 Cangen, y Weinyddiaeth Addysg, Swyddogion Addysg Bellach, Cynhadledd Sefydlog Mudiad Gwirfoddol Cenedlaethol Ieuenctid, a Chyngor Gwasanaeth Cymdeithasol Cymru. Pwnc—"Yn yr Awyr Agored," (gyda thraffodaethau a ffilmiau).

Croeso'r Llywydd i'r Siaradwyr a'r Cynrychiolwyr oedd y peth cyntaf ar y Rhaglen.

Y Siaradwyr oedd :-

Mr. A. H. Williams, M.A., H.M.I.

Capt. A. W. Cole, Undeb Cenedlaethol Clybiau Bechgyn.

Mr. Emlyn Evans, B.A., Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

Miss Vesta Edwards, B.Sc., Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

Y Parchedig James Keane, M.A., Ysgrifennydd, Cyngor Rhanbarthol Ieuenctid yr Eglwys yng Nghymru.

Y Dr. William Thomas, C.B., Cyngor Gwasanaeth Cymdeithasol Cymru.

Newyddbeth dymunol eleni oedd y sesiwn ar "Arbrofion Diddorol" gan seolau o'r Mudiadau Ieuenctid, a Mr. Aled Rhys Williams, B.B.C., Cymru yn eu holi, a'r Capt. Glynn-Jones yn y Gadair. Traethodd yr Aelodau Ifanc ar arbrofion y bu ganddynt hwy eu hunain ran ynddynt :-

(a) "Ar Afon Dafwys" (Clwb Bechgyn Aber-craf).

(b) "Dilyn Taith Gerallt Gymro" (Mudiad y Sgowtiaid).

(c) "Gwobr Dug Caeredin" (Brigad y Bechgyn; Mudiad Clybiau Ieuenctid Cymru; Y.M.C.A.; Y.W.C.A.).

(d) "Hostelau Ieuenctid" (Mudiad Hostelau Ieuenctid).

Yr oedd Sesiwn "Unrhyw Gwestiwn" yn ddiddorol a bywiog o dan lywyddiaeth Mr. A. H. Williams. Ei banel oedd Miss Ena Gray, Mr. R. E. Roberts, Mr. R. E. Kendrick, a Mr. E. P. Rowlands.

Crynhôdd y Dr. William Thomas y cyfan i derfynu'r Gynhadledd Iwyddianus hon, a phwysleisiodd bwysigrwydd Astudio Natur. Ychwanegodd "Fod ymgysylltu â Chymdeithas yn rhoi i'r bobl ifanc ymdeimlad o berthyn i'r Gymdeithas. Deuant i fyw bywyd cymdeithasol effeithiol a chyfrifol os cânt gyfe i weled, a gwrando, a theimlo, a chyffwrdd â gweithgareddau eu bro.

Dyry hanes lleol, daearyddiaeth yr ardal, a thraddodiadau'r fro iddynt wreiddiau. Diffyg gwreiddiau yw un o brif achosion anniddigrwydd." Terfynodd y Dr. Thomas fel hyn—"Pwysleisiai'r holl ddarlithoedd mai gwaith i'r dyn ifanc ei hun yw'r tyfu. Rhaid i'w ddiddordebau ef ei hun flaguro—dyna'r unig ffordd. Er mwyn meithrin tyfiant rhaid wrth amynedd hir y garddwr yn hytrach nag ymyriad brysiog y mecanic. Dylai fod digonedd o ddewis ymhlith y diddordebau, rhaglen eang, agwedd oddefgar tuag at unigolion, a pharch i'r patrwm arbenig a ddatblygir."

Cynhelir y Chweched Gynhadledd Flynyddol yng Nglan-y-Môr, y Barri, Fis Hydref 21-23, 1960. Y Pwnc fydd "Partneriaeth."

Adroddiad Albemarle

Yn 1959 cyflwynodd y Gynhadledd Sefydlog Femorandwm Tystiolaeth i Bwyllgor Ymchwil Gwasanaeth Ieuencid, cyn bod y Pwyllgor yn ymweled â Chymru.

Ar ran y Gynhadledd Sefydlog rhoddwyd tystiolaeth lafar gan y Cadeirydd, yr Anhydeddus J. H. Bruce, C.A.E., y Dr. William Thomas, C.B., a Mr. R. E. Roberts, Ysgrifennydd Cenedlaethol, Y.M.C.A., Cymru.

Cyflwynwyd Adroddiad y Pwyllgor, a apwyntiwyd yn Nhachwedd 1958 gan y Gweinidog Addysg, i'r Senedd yn Chwefror 1960.

Ymweliad Dirprwyaeth o Wlad Pwyl â Chymru

Ymwelasant â Chymru Tachwedd 27-30, 1959 i gynrychioli Pwyllgor Cenedlaethol Gwlad Pwyl, ac er mwyn cydweithredu â Mudiad yr Ifanc yma.

Trefnwyd rhaglen ar eu cyfer yn cynnwys llety yng Ngholeg-y-Pro, a dilyn Cwrs i Fyfyrrwr a gynhelid yno ar y pryd; croeso gan Arglwydd Faer Caer-dydd yn Neuadd y Ddinas; cyfarfodydd a llety gydag Aelodau Clybiau Llanelli; Gem Rygbi; trafodaethau efo aelodau Clwb Ieuencid Eglwys Bresbyteriaidd Llanelli; ymweled â Glan-y-Môr, y Barri, i ddilyn cwrs wedi ei drefnu gan Fudiad Clybiau Ieuencid Cymru.

Yn anffodus, nid oedd amser i gyfarfod â mudiadau eraill. Gwerthfawrogi'r ymwelwyr y trefniadau ar eu cyfer, a bu'r Dr. William Thomas gyda hwy ar hyd y daith.

DRAMA

Mr. E. C. Bilson

O'r Llyfrgell Ddrama rhoddwyd benthyg i unigolion, a Chymdeithasau, a Threfnwyr Sirol, a Cholegau, ac amrywiol Sefydliadau :-

	<i>Coptau</i>	<i>Setiau</i>
	<i>Unigol</i>	<i>Llawr</i>
Dramâu Hir	626	284
Dramâu Un Act	287	201
Amrywiol	66	—
	979	485

Rhoi Benthyg Offer Llwyfan :-

<i>Lleuni</i>	<i>Undau Goleno</i>	<i>Amrywiol</i>
43	17	8

Cyngor Drama Cymru

Cafodd hwn, sy'n un o Bwyllgorau'r Cyngor, golledion trymion yn gynnar yn y flwyddyn, ym marwolaeth ei Gadeirydd, Mr. T. J. Webley, ac yna Mrs. Mary Lewis, dau a fu'n amlwg iawn ym maes y ddrama, ac yn aelodau gweithgar a blaengar at y Cyngor; a mawr yw ein gofid o'u colli.

Cynhaliwyd y Bedwaredd Wyl Un Act yn y Coliseum, Aber-dar, a chwmmiau'n cystadlu o 11 Sir yng Nghymru, saith yn Saesneg, a phedwar yn Gymraeg. Tystiodd y Beirniad, Mr. Emlyn James, fod safon y cynhyrchu'n uchel, yn arbennig yn y Cwmmiau o'r Gogledd. Gresyn i'r dyddiadau a ddewiswyd, Mehefin 12, 13, brofi'n anfantaisiol, am eu bod yn rhy ddiweddar i ddenu llawer i wrando, er bod yr enillwyr ym mhob Cystadleuaeth Sir wedi ymddangos.

Penderfynwyd trefnu'r Wyl yn gynnar y tro nesaf, a dewis pedair Drama Un Act i'w llwyfanu, y goreuon mewn cystadleuaeth, yn Gymraeg neu yn Saesneg, a heb eu cyhoeddi na'u cynhyrchu o'r blaen. Deuthai un-ar-hugain i law Mrs. Mary Lewis i'w beirniadu, ond pan fu hi farw, rhoddwyd y gwaith i Mr. Gwynne D. Evans o Sir Gaerfyrddin. Yr ydym yn hyderus y ceir safon uchel yn yr ŵyl.

CRONFA APÊL AWR Y PLANT

Mr. E. C. Bilson

Cyfrannwyd rhoddion, gwerth £800, i dros 900 o blant methodig, neu afiach, neu o aelwydydd anffortunus.

Drachefn cyflwynwn ein diolchgarwch i Ysgrifenyddion Cyngorau Cymdeithas Wledig, Swyddfeydd Cyngori Dinasyddion, Swyddogion Meddygol a Swyddogion Addysg, aelodau'r Staff, a'r Unigolion, a fu'n ein cynorthwyo i ddosbarthu'r Gronfa hon.

DIOLCHIADAU

I'r Gweinyddiaethau, y Comisiwn Datblygu, Awdurdodau Lleol, a'r Ymddiriedolaethau, a'i gwnaeth hi'n bosibl, drwy eu cymorth ariannol, inni gyflawni'n gwaith. Ein hyder yw y bydd yr Adroddiad hwn yn ennyn ynddynt awydd i barnau i estyn eu cymorth inni.

I'r Unigolion, a'r Diwydiannau, a'r Tai Busnes, a'r Undebau Llafur a'n cynorthwyodd ni â'u rhoddion a'u tanysgrifiadau.

I aelodau'r Clybiau am eu rhodd hael o £1,311.

Y STAFF

Yn ddiwethaf oll, ymfalchia'r Cyngor fod ganddo yn ei wasanaeth fintai sydd mor effeithiol a theyrngar; a llawen ydym o allu cofnodi ei werthfawrogiad o'u llafur. Heb eu gwasanaeth hwy, buasai'r gwaith a gofnodir yma heb ei gyflawni.

INCOME AND EXPENDITURE ACCOUNT FOR

EXPENDITURE

<i>Year ended</i> 31st March, 1959			£ s. d.	£ s. d.
£ s. d.			£ s. d.	£ s. d.
12,196 0 4	Salaries		12,993 12 9	
146 10 0	Superannuation		170 18 3	
527 5 3	National Insurance		517 13 9	
12,871 15 7			13,682 4 9	
2,287 2 10	Travelling and Subsistence		2,101 15 1	
84 0 0	Audit Fee		85 0 0	
28 7 3	Office Cleaning		10 1 8	
415 19 0	Printing and Stationery		315 9 7	
895 7 5	Postages, Telephones and Telegrams		342 9 6	
278 15 1	Lighting and Heating		237 14 9	
250 19 4	Rates and Ground Rent		246 12 4	
22 17 7	Repairs and Renovations		23 6 9	
37 14 3	General Insurances		45 10 10	
13 2 1	Carriage and Haulage		12 18 10	
5 5 0	Proportion of Affiliation Fees to National Council of Social Service		5 5 0	
122 10 6	Drama Library and Equipment		12 19 11	
12 10 6	Advisory Visits, Schools and Courses		10 14 0	
69 3 6	Drama Festival		156 5 1	
—	Conferences		6 18 6	
6 6 0	Exhibitions		—	
11 11 2	Leaders' Courses O.P.W.		—	
11 3 0	Community Associations		—	
72 4 6	Bank Charges		72 18 0	
—	Donation Refunded		5 5 0	
43 16 7	Miscellaneous		44 0 8	
1,166 2 7	Balance, Excess of Income over Expenditure		607 15 3	

£18,193 13 9

£18,033 5 4

THE YEAR ENDED 31st MARCH, 1960

Year ended 31st March, 1959		INCOME				
£	s. d.		£	s. d.	£	s. d.
GRANTS FOR SPECIFIC PURPOSES :						
4,000	0 0	Development Commission	5,200	0 0		
1,300	0 0	Ministry of Education	1,500	0 0		
5,800	0 0	Glamorgan County Council	4,400	0 0		
500	0 0	Garmarthenshire County Council ..	350	0 0		
1,000	0 0	National Corporation for the Care of Old People				
150	0 0	Local Authorities: Grants towards Old People's Week	130	0 0		
500	0 0	Coal Industry Social Welfare Organisation	500	0 0		
12	0 0	National Council of Social Service (Old People's Welfare Training Committee)				
11	3 0	National Federation of Community Associations				
12,273	3 0				12,080	0 0
OTHER INCOME :						
1,554	7 6	Subscriptions and Donations			1,736	16 5
1,371	14 7	Donations from Social Service Clubs ..			1,311	6 5
B.B.C. Wireless Appeal :—						
50	10 2	Lord Mayor of Cardiff's Appeal for Old People's Welfare				
Grants :						
667	0 0	Ministry of Health per National Council of Social Service	670	0 0		
200	0 0	National Council of Social Service for services rendered	200	0 0		
1,000	0 0	Carnegie United Kingdom Trust	1,000	0 0		
					1,870	0 0
92	18 6	Affiliation Fees			72	9 0
26	5 0	Cardiff Rural District Council			26	5 0
50	0 0	Radnorshire County Council			50	0 0
5	5 0	Pontardawe Rural District Council				
—		Llantrisant and Llantwit Fardre Rural District Council ..			10	10 0
—		Neath Rural District Council			10	10 0
225	0 0	Agency Fees			150	0 0
103	11 1	Administration Costs and Fares recovered			178	3 2
202	5 8	Loan of Plays and Equipment			158	5 10
257	0 0	Rent: Sub-letting			260	10 0
118	9 6	Interest on Investments			118	9 6
6	3 9	Miscellaneous Income				
£18,193	13 9		£18,033	5 4		

SUBSCRIPTIONS AND DONATIONS—*continued*

	£	s.	d.
Lord Merthyr	8	11	5*
Sir Thomas Meyrick	5	0	0
Dr. David Monger	3	8	7*
Mr. John Morgan	5	5	0
Mr. A. B. Oldfield Davies	2	2	0
Miss Myra Owen	2	2	0
Mr. P. F. Parkinson	2	2	0
Mr. J. Denning Pearson	3	8	7*
The Earl of Plymouth	5	5	0
Col. Evan Powell	2	2	0
Mr. R. E. Presswood	1	1	0
Mr. D. S. Pugh	5	5	0
Alderman W. J. Saddler	2	2	0
Mrs. Dorothy Elliot Seager	1	1	0
Sir Leighton Seager, Bart.	2	2	0
Mrs. M. Sessions	5	0	0
Miss Grace H. Smith	5	0	0
Mr. W. H. Smith	4	4	0
Principal Anthony Steel	2	2	0
Sir Geoffrey Summers	3	5	4*
Mr. S. O. Thomas	1	1	0
Dr. Wm. Thomas	15	0	0
Sir W. J. C. Thomas, Bart.	2	2	0
Mr. Wynford Vaughan Thomas	2	0	0
Mr. A. A. Thorpe	2	2	0
Mr. G. A. Watson	1	1	0
Mr. D. C. Watts	1	0	0
Mr. Frank Webber	1	1	0
Sir Robert Webber	8	11	5*
Sir Wynn P. Wheldon	10	10	0
Mr. Owen Williams	10	10	0

* *Covenanted*

Firms and Business Houses

Aberdare Cables Ltd.	10	0	0
Aero-Zipp Fasteners Ltd.	2	2	0
Aluminium Corporation Ltd.	3	3	0
Associated Electrical Industries Ltd.	3	3	0
Associated Ethyl Co. Ltd.	5	5	0
B.P. Refinery (Llandarcy) Ltd.	5	0	0
J. Bibby & Sons Ltd.	10	0	0
Boots Cash Chemists (Western) Ltd.	5	5	0
S. A. Brain & Co. Ltd.	1	1	0

SUBSCRIPTIONS AND DONATIONS—*continued*

	£	s.	d.
Bristol Aircraft Ltd.	5	5	0
British Aluminium Co. Ltd.	5	5	0
British Celanese Ltd.	5	5	0
British Motor Corporation Ltd.	50	0	0
British Oxygen Gases Ltd.	3	3	0
British Resin Products Ltd.	5	5	0
Butlins Ltd.	10	10	0
William Champness & Sons Ltd.	1	1	0
Cooper & Co. (Birmingham) Ltd.	2	2	0
Courtaulds Ltd.	5	5	0
Crown Cork Co. Ltd.	5	5	0
De Havilland Aircraft Co. Ltd.	5	5	0
En Tout Gas Co. Ltd.	1	1	0
Esso Petroleum Co. Ltd.	50	0	0
General Paper & Box Manufacturing Co. Ltd.	1	1	0
Great Universal Stores Ltd.	21	0	0
Arthur Guinness Son & Co. (Park Royal) Ltd.	25	0	0
William Hancock & Co. Ltd.	1	1	0
Thomas Hedley & Co. Ltd.	10	10	0
Hodges & Sons (Clothiers) Ltd.	2	2	0
Hoover Ltd.	10	10	0
A. H. Hunt (Capacitors) Ltd.	5	5	0
Imperial Chemical Industries Ltd. (Billingham Division)	5	5	0
Imperial Tobacco Company	26	5	0
Johnsen & Jorgensen (Trident) Ltd.	3	3	0
R. E. Jones Ltd.	1	1	0
Kayser Bondor Ltd.	5	5	0
T. Alwyn Lloyd & Alex Gordon	3	3	0
Metal Box Charities Ltd.	5	5	0
Mettoy Co. Ltd.	1	1	0
Mitchells & Burlers (South Wales) Ltd.	2	2	0
Mond Nickel Co. Ltd.	5	0	0
Monsanto Chemicals Ltd.	5	5	0
Pilkington Bros. (South Wales) Ltd.	2	12	6
Chance Pilkington Optical Works	2	12	6
John Player & Sons	26	5	0
Pressed Steel Co. Ltd.	10	10	0
Regent Oil Co. Ltd.	10	0	0
Replacement Cleaners Ltd.	2	2	0
Rhymney Engineering Co. Ltd.	2	2	0
Ronson Products Ltd.	5	5	0
Royal Sovereign Pencil Co. Ltd.	1	1	0
Rubery Owen Group Charitable Trust	5	5	0
H. Samuel Ltd.	2	2	0

